

Cyngor Sir Ynys Môn

Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol

Fersiwn 2.0 Awst 2016

Am y polisi hwn

Pwrpas y ddogfen hon yw amlinellu'r weithdrefn gyffredinol y bydd raid ei dilyn i gynorthwyo cydymffurfiaeth gyda'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 2002 (fel y cawsant eu diwygio) a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 1974. Dylai'r weithdrefn fod o gymorth i reoli diogelwch tân yn yr Awdurdod.

Bwriedir y bydd y weithdrefn hon yn berthnasol i'r holl eiddo sydd dan reolaeth Cyngor Sir Ynys Môn a'r holl weithgareddau a gyflawnir ganddo. Lle bo angen, dylai'r weithdrefn hon gynnwys cleientiaid a defnyddwyr gwasanaeth o fewn yr adeiladau hyn neu sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
2.0	Awst 2016	Diweddaru templed
	Awst 2017	Dim newidiadau
	Gorffennaf 2018	Dim newidiadau
	Awst 2019	Dim newidiadau
	Rhagfyr 2020	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi ar :	Mehfin 2021
Cynhelir yr adolygiad gan:	Tim Iechyd a Diogelwch

Manylion cyswllt:

Tim Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (lechydaDiogelwch@ynysmon.gov.uk)

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

Cynnwys

1. Rhagarweiniad

Pwrpas y ddogfen hon yw amlinellu'r weithdrefn gyffredinol y bydd raid ei dilyn i gynorthwyo cydymffurfiaeth gyda'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 2002 (fel y cawsant eu diwygio) a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 1974. Dylai'r weithdrefn fod o gymorth i reoli diogelwch tân yn yr Awdurdod.

Bwriedir y bydd y weithdrefn hon yn berthnasol i'r holl eiddo sydd dan reolaeth Cyngor Sir Ynys Môn a'r holl weithgareddau a gyflawnir ganddo. Lle bo angen, dylai'r weithdrefn hon gynnwys cleientiaid a defnyddwyr gwasanaeth o fewn yr adeiladau hyn neu sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.

2. Dyletswyddau dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Dylai pob Adran, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, gydymffurfio gyda Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a'r canllawiau cysylltiedig perthnasol a gyhoeddwyd gan yr Adran ar gyfer Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Person Cymwys

Rhaid i bob Adran / Maes Gwasanaeth sicrhau bod Person Cyfrifol wedi'i enwebu i sicrhau bod asesiad addas ynghylch risgiau tân wedi'i wneud ac i oruchwylio'r gwaith diogelu ac atal.

Asesiad Risg

Dylid sicrhau bod asesiad risg tân addas a digonol wedi'i wneud ar gyfer yr holl adeiladau/ardaloedd gweithio ym mhob Adran / Maes Gwasanaeth. Dylai'r asesiad risg tân gael ei wneud gan asesydd cymwys a dylai nodi mesurau ataliol a diogelu mewn perthynas â diogelwch tân.

Dylai'r asesiad risg tân:

- Nodi'r holl risgiau tân (nodi a chofnodi ffynonellau tanio a thanwydd);
- Nodi pawb sydd mewn peryg (staff, disgyblion, defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr, contractwyr ac ati gan roi sylw arbennig i bobl gydag unrhyw amhariad corfforol neu feddyliol);
- Gostwng, rheoli neu gael gwared ar y risg tân.

- Asesu'r risg o dân a phwyso a mesur a yw'r darpariaethau diogelwch tân cyfredol yn ddigonol (systemau canfod tân, larymau, systemau atal tân, cynnal a phrofi systemau diogelwch);
- Dylid cofnodi'r holl ganfyddiadau.

Rhaid rhoi gwybod i staff am gynnwys yr asesiad. Dylid cynnal asesiadau risg tân yn lleol am gyhyd ag y maent yn berthnasol. Dylid adolygu asesiadau risg tân os oes rhywbeth wedi newid yn sylweddol. Onid oes newid sylweddol wedi bod, dylid adolygu'r asesiad risg o bryd i'w gilydd yn unol â'r lefel o risg sy'n bodoli - o leiaf bob blwyddyn. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gan berson cymwys.

Cynllun Argyfwng.

Dylai bod gan bob Adran / Maes Gwasanaeth gynllun ar gyfer argyfyngau, megis argyfwng tân, a hynny er mwyn cynorthwyo i gydymffurfio gyda Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 2002 (fel y cawsant eu diwygio). Dylai'r Cynllun Argyfwng gymryd canfyddiadau'r Asesiad Risg Tân i ystyriaeth.

Dylai'r Cynllun Argyfwng gynnwys:

- Strategaeth ar gyfer gwagio adeiladau
- Yr hyn dylid ei wneud os darganfyddir tân
- Yr hyn dylid ei wneud ar ôl clywed y larwm tân
- Y dull o alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub a sut i gydgyssylltu â nhw wedi iddynt gyrraedd
- Nodi diangfeydd allweddol
- Marsialiaid Tân
- Man(mannau) ymgynnull a galw'r gofrestr
- Offer ymladd tân
- Hyfforddiant angenrheidiol

Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (CPGA)

Nod y CPGA yw sicrhau bod dihangfa ar gyfer pobl nad oes modd iddynt efallai ddianc o adeilad heb gymorth, neu i roi gwybod i unigolion a chanddynt nam ar y synhwyrau bod argyfwng wedi codi.

Cynllun Generig Gadael mewn Argyfwng (CGGA)

Dylai bod gan adeiladau sy'n caniatáu mynediad i'r cyhoedd CGGA i gynorthwyo aelodau o'r cyhoedd a chanddynt nam ar synhwyraidd neu gorfforol i adael yr adeilad.

Marsialiaid Tân

Dylai bod gan bob Adran / Maes Gwasanaeth ddigon o farsialiaid tân enwebedig i gynorthwyo a chynnal mesurau diogelwch tân. Dylai'r asesiad risg bennu nifer y marsialiaid tân.

Rhoi Prawf

Dylai pob Adran / Maes Gwasanaeth roi prawf addas ar y mesurau diogelu ac atal sydd wedi'u sefydlu. Gellir gwneud hynny ar ffurf archwiliadau o bryd i'w gilydd yn unol â'r manylion yn atodiad 1.

Cynnal

Dylai pob Adran / Maes Gwasanaeth sicrhau bod person cymwys yn gweithredu system gynnal addas ar gyfer yr adeiladau ac ar gyfer unrhyw offer a ddarperir mewn cysylltiad â diogelwch tân.

Llyfr Cofnodi Tân

Dylai pob Adran / Maes Gwasanaeth sicrhau bod Llyfr Cofnodi Tân ar gyfer yr ardal / adeilad perthnasol. Dylid nodi yn y llyfr hwn ddyddiadau ac amseroedd gwaith cynnal a phrofion a wnaed ar offer a threfniadau diogelwch tân. Mae hyn yn cynnwys dyddiadau ac amseroedd driliau tân.

Tân Bwriadol / Diogelwch

Dylid ystyried tân bwriadol a diogelwch mewn perthynas â diogelwch tân. Mae gweithdrefn ar wahân mewn perthynas â'r pwnc hwn.

Archwilio

Dylid archwilio'r systemau a sefydlwyd i gynorthwyo gyda diogelwch tân yn erbyn y weithdrefn hon.

3. Hyfforddiant

Dylid rhoi gwybodaeth, hyfforddiant a chyfarwyddiadau priodol i weithwyr, yn ystod oriau gwaith arferol, am y rhagofalon tân yn y lle gwaith. Mae canllawiau ar gyfer hyfforddiant i'w gweld yn atodiad 2.

Dylai'r bobl hynny y mae'r asesiad risg tân wedi'i wneud ar eu cyfer gael gwybodaeth glir a pherthnasol am y risgiau iddynt a'r mesurau diogelu ac atal a gymerir yn achos tân.

Dylid rhoi gwybod iddynt sut y bydd y mesurau hyn yn eu diogelu os digwydd tân. Os yw adeiladau'n cael eu rhannu, rhaid i'r personau cyfrifol gydweithredu a chydgyssylltu. Dylid rhannu gwybodaeth ynghylch unrhyw risgiau tân sylweddol ac ynghylch sut mae gostwng / rheoli'r risgiau hynny.

Dylai bod gan bob Adran / Maes Gwasanaeth systemau i roi gwybodaeth glir a pherthnasol ar y mesurau diogelu ac atal a sefydlwyd ar gyfer gweithwyr dros dro ac ymwelwyr. Dylid rhannu'r fath wybodaeth yn ystod y sesiynau cynefino (sef cyn gynted ag y bo modd ar ôl cyrraedd yr adeilad).

Dylid cadw cofnodiadau o wybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant a roddwyd.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar estyniad 1248 752820.

Atodiad

Atodiad 1 Enghreifftiau o archwiliadau a phroffion

Pob dydd	Sicrhau nad yw dyfeisiau ar allanfeydd tân yn rhwystro pobl rhag dianc Sicrhau bod drysau ar ddiangfeydd yn agor yn hwylus ac yn cau'n llawn Sicrhau bod allanfeydd a diangfeydd yn rhydd o rwystrau a deunyddiau fflamadwy a'u bod mewn cyflwr da Sicrhau bod y panel larwm tân ymlaen ac yn gweithio'n iawn Archwiliadau gweledol o oleuadau argyfwng Sicrhau bod yr holl arwyddion a rhybuddion diogelwch yn glir Sicrhau bod yr holl ddrysau tân yn cau yn ôl rhaglen a benderfynwyd ymlaen llaw
-----------------	--

Wythnosol	<p>Systemau canfod a rhybuddio am dân (gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr neu'r gosodwyr)</p> <p>Dyfeisiadau rhybuddio sy'n gweithio â llaw (gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr neu'r gosodwyr)</p> <p>Sicrhau bod offer diffodd tân ac olwynion pibellau tân yn y lle iawn ac yn gweithio'n iawn</p>
Misol	<p>Systemau goleuadau argyfwng (gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr neu'r gosodwyr)</p> <p>Sicrhau bod yr holl ddrysau yn gweithio'n iawn, yn cau'n iawn a bod y fframiau a'r seliau'n gyflawn.</p>
Chwarterol	<p>Y broses o wagio'r adeilad – Rhaid ei hymarfer a'i chofnodi (gan gynnwys unrhyw CGPA) a'i newid fel y cyfyd yr angen.</p>
Chwe misol	<p>Dylai person cymwys gynnal a rhoi prawf ar y goleuadau argyfwng, y system canfod tân a'r system rhybuddio.</p>
Blynyddol	<p>Dylai person cymwys gynnal a rhoi prawf ar yr holl offer ymladd tân, larymau tân a systemau eraill a osodwyd. Dylid archwilio unrhyw strwythurau diogelu rhag tân neu strwythurau atal tân am ddiffygion.</p>

Atodiad 2: Hyfforddiant lechyd a Diogelwch (pynciau a awgrymir)

Sesiynau Cynefino	<p>Dylid sicrhau sesiwn gynefino ar gyfer pob aelod newydd o staff fel y gallant ymgyfarwyddo gyda'r adeilad. Dylai hynny gynnwys hyfforddiant diogelwch tân ar bwyntiau fel:</p> <p>Pwysigrwydd cadw drysau tân ar gau (neu eu cau). Yr hyn y dylid ei wneud os darganfyddir tân a sut i ganu'r larwm. Yr hyn y dylid ei wneud ar ôl clywed y larwm a'r drefn ar gyfer rhoi gwybod i gleientiaid ac ymwelwyr am dân, gan gynnwys dangos y ffordd i'r allanfeydd. Y broses ar gyfer gwagio'r adeilad. Dylai hyn gynnwys unrhyw weithdrefn berthnasol ar gyfer cynorthwyo pobl sy'n llai abl yn gorfforol. Lleoliad a gweithrediad diangfeydd, allanfeydd a phwyntiau ymgynnull. Lle mae hynny'n briodol, rhoi gwybod sut i droi peiriannau, offer a phrosesau i ffordd a sut i ynysu'r cyflenwad pŵer. Diogelwch tân yn gyffredinol, arferion cadw tŷ da ac unrhyw</p>
--------------------------	--

	wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i gynorthwyo diogelwch.
Hyfforddiant Theori – Diffodd Tân	Dylai nifer, math a lleoliad staff a neilltuir ar gyfer yr hyfforddiant hwn fod yn gymesur â'r risg yn yr adeilad, y gweithgareddau a gynhelir a'r bobl sydd ynddo.
Hyfforddiant Ymarferol – Diffodd Tân	Hyfforddiant ar gyfer Marsialiaid Tân a staff allweddol eraill. Dylai'r hyfforddiant fod yn gymesur â'r risg yn yr adeilad, y gweithgareddau a gyflawnir a'r bobl sydd ynddo.
Dyletswyddau'r Marsial Tân	<p>Dylai'r hyfforddiant ar gyfer marsialiaid tân fod yn ddigonol fel bod modd iddynt gyflawni eu swyddogaeth. Dylai'r hyfforddiant roi sylw i:</p> <p>Gwybodaeth fanwl am y strategaeth tân ar gyfer yr adeilad. Yr anawsterau y gall rhai pobl eu cael o ran dianc o'r adeilad ac unrhyw drefniadau gwagio arbennig.</p> <p>Archwilio'r eiddo i sicrhau bod pawb wedi gadael, gan gynnwys: Sut i chwilio'n ddiogel a nodi'r ardaloedd nad yw'n ddiogel mynd i mewn iddynt</p> <p>Defnyddio offer ymladd tân os yw'n ddiogel i wneud hynny</p> <p>Cydgysylltu gyda'r gwasanaeth tân ar ôl iddo gyrraedd</p> <p>Troi offer hollbwysig neu beryglus i ffwrdd</p> <p>Gweithredu fel goruchwyliwr mewn sefyllfa o dân</p> <p>Rhoi gwybod am ddiffygion, digwyddiadau a damweiniau fu bron a digwydd</p> <p>Dylid trefnu hyfforddiant gloywi bob tair blynedd.</p>
Rheoli Diogelwch Tân / Hyfforddiant i'r Personau Cyfrifol	Ar gyfer y Person Cyfrifol a staff allweddol eraill.
Dylid trefnu'r hyfforddiant trwy'r Adran AD.	

1.0